



Cynnig Cyfranddaliadau Cymunedol Bys a Bawd Pawb

Cynnwys

1. Y stori hyd yn hyn ...
2. Sut ydych chi'n mynd i wneud hyn?
3. Beth sy'n digwydd os nad ydych yn codi digon o arian i brynu'r adeilad?
4. Beth yw cyfranddaliadau?
5. Pryd?
6. Ydych chi'n bwriadu gwneud unrhyw newidiadau i'r siop?
7. Ein nodau a'n gwerthoedd
8. Y pethau cyfreithiol

1. Y stori hyd yn hyn

Mae Bys a Bawd yn siop llyfrau Cymraeg boblogaidd iawn, wedi'i lleoli mewn adeilad siop draddodiadol yng nghanol Llanrwst. Dyma'r unig siop llyfrau Cymraeg yng Nghonwy, ac eleni mae'n dathlu ei phen-blwydd yn 70 oed.

Mae'r perchennog presennol eisiau ymddeol. Yn 2023, rhoddodd y busnes, y siop a'r ddau fflat cysylltiedig ar werth.

Pan ddaeth yn amlwg nad oedd unrhyw un eisiau prynu'r ased, cysylltodd Cyngor Llyfrau Cymru â Menter Iaith Conwy i ofyn a fyddent yn cefnogi pryniant y busnes dan arweiniad y gymuned.

Ym mis Ebrill 2024, trefnodd Menter Iaith Conwy ddau gyfarfod cyhoeddus i drafod y syniad o lansio cynnig cyfranddaliadau cymunedol i godi arian i brynu'r siop. Daeth dros 50 o bobl, gyda chefnogaeth eang a brwdfrydig i'r prosiect.

Yn dilyn hyn, daeth grŵp o ddeg o bobl ymlaen i ffurfio bwrdd a phwyllgor Bys a Bawd Pawb. Mae'r grŵp yn gyfuniad o unigolion lleol sydd ag ystod eang o brofiad proffesiynol, cymunedol a gwirfoddol, sy'n awyddus i ddod ag egni a brwdfrydedd newydd i'r siop.

Os bydd y grŵp yn codi digon o arian i brynu Bys a Bawd, bydd y busnes yn cael ei redeg gan y bwrdd rheoli, ar ran buddsoddwyr.

Byddant yn cyflogi staff proffesiynol, ond mae llawer o bobl hefyd wedi cysylltu â nhw a hoffai wirfoddoli.

Dros yr wythnosau diwethaf, mae llawer wedi bod yn digwydd, gan gynnwys:

- Gweithio ar geisiadau grant
- Creu gwefan
- Cofrestru fel Cymdeithas Budd Cymunedol
- Datblygu'r dogfennau cynnig cyfranddaliadau cymunedol
- Sefydlu cyfrif banc
- Trefnu cyfres o ddigwyddiadau codi ymwybyddiaeth
- Marchnata
- Trefnu prisiadau ac arolygon

2. Sut ydych chi'n mynd i wneud hyn?

Gyda chymorth a chefnogaeth Cymdeithas Plunkett, Menter Iaith Conwy, a Chyngor Llyfrau Cymru, mae'r pwyllgor wedi sefydlu Cymdeithas Budd Cymunedol – Bys a Bawd Pawb Cyf.

Gwnaethom ddewis cymdeithas budd cymunedol i gynnwys perchnogaeth mor eang â phosibl, a'n galluogi i gyflwyno cyfranddaliadau cymunedol.

Bydd y cynllun cyfranddaliadau cymunedol yn codi arian gan fuddsoddwyr lleol ac yn sicrhau bod y gymuned yn berchen ar y busnes ac bod ganddynt gyfran ariannol yn ei dyfodol.

Mae'r gymdeithas yn cael ei rhedeg gan fwrdd cyfarwyddwyr, pob un ohonynt ag un bleidlais, ac yn cael eu rheoleiddio'n gyfreithiol gan reolau - gellir gweld copi ohono ar ein gwefan.

Yn wahanol i gymdeithas gydweithredol, mae cymdeithas budd cymunedol yn bodoli i wasanaethu buddiannau ehangach y gymuned, yn wahanol i gymdeithasau cydweithredol sy'n gwasanaethu buddiannau aelodau.

Hyd yn hyn, mae'r gymdeithas wedi sicrhau cyllid gan Gyngor Conwy i greu cynllun busnes trylwyr, wedi'i gostio'n briodol, a chan Cwmpas (Co-op Cymru) i dalu am brisiad a lansiad y cynnig cyfranddaliadau cymunedol.

Gobeithio y bydd cyllid o'r cynllun cyfranddaliadau yn cael ei gyfateb gan gyllid grant gan sefydliadau fel Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol Llywodraeth Cymru.

Mae'r gymdeithas wedyn yn gobeithio bod mewn sefyllfa i brynu'r adeilad a symud ymlaen gyda'r dasg nesaf o reoli – a gobeithio, ailddatblygu - Bys a Bawd fel siop llyfrau a hwb diwylliannol Cymraeg ffyniannus.

Rhaid i unrhyw elw a wneir gan gymdeithas budd cymunedol gael ei ddefnyddio er budd y gymuned.

3. Beth sy'n digwydd os nad ydych yn codi digon o arian i brynu'r adeilad?

Cynllun y Gymdeithas yw prynu'r adeilad cyfan, y busnes, yn ogystal â'r ddau fflat uchod.

Mae'r busnes yn gwneud elw bach; mae'r ddau fflat yn cefnogi cynaliadwyedd y busnes, ac mae eu prynu'n cyd-fynd â'n nod o gefnogi cymuned leol ffyniannus trwy ddarparu cartrefi fforddiadwy i'w rhentu.

Am fwy o wybodaeth a rhagamcaniadau ariannol, gweler ein cynllun busnes ar www.bysabawdpawb.cymru

Ar hyn o bryd mae'r endid cyfan ar y farchnad am £395,000.

Mae Bys a Bawd Pawb wedi cael Prisiad Llyfr Coch annibynnol o'r busnes, y fflatiau a'r adeilad, sy'n nodi bod y gwerth yn £322,000.

Felly, byddwn yn gwneud cynnig yn seiliedig ar y prisiad hwn.

Bydd y pryniant yn cael ei ariannu yn y lle cyntaf o werthu cyfranddaliadau cymunedol o ganlyniad i'r Cynnig Cyfranddaliadau.

Rydym hefyd yn gwneud cais am grant o £300,000 gan Lywodraeth Cymru a fyddai'n cyfrannu £112,000 i dalu am brynu elfen y siop yn yr adeilad, ac unrhyw gostau adnewyddu i'r siop.

Mae angen cymaint o arian cyfranddaliadau cymunedol â phosibl arnom i ariannu'r grant hwn.

Felly, ein targed yw codi £230,000 o'r cynnig cyfranddaliadau hwn.

Defnyddir buddsoddiad y cynnig cyfranddaliadau ar gyfer prynu, cost prynu (ffioedd cyfreithiol ac yswiriant), ac fel cyfraniad at gostau adnewyddu ac ailddatblygu.

Byddwn yn dechrau trafodaethau wrth i'r cynnig cyfranddaliadau fynd yn ei flaen, a byddwn yn defnyddio unrhyw arian cynnig cyfranddaliadau a godir fel blaendal i sicrhau ein cynnig.

Mae hon yn sefyllfa bidio cystadleuol, felly mae angen i ni godi swm digonol yn gyflym. Er bod y siop wedi bod ar y farchnad ers tua dwy flynedd, does dim sicrwydd na fydd cynnig arall yn cael ei wneud.

Mae'r Gymdeithas hefyd wedi cael cynnig yr opsiwn o fenthyciad Buddsoddi Cymdeithasol Cymru o £300,000 gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA), ar gyfradd llog o 6%. Gellid defnyddio rhywfaint o hyn os bydd diffyg.

Mae Bys a Bawd yn fusnes proffidiol ac mae'n cynrychioli buddsoddiad cadarn. Ar ôl ei brynu, bydd y Gymdeithas yn parhau i redeg y busnes ar gyfer y gymuned.

Mae Bys a Bawd Pawb yn hyderus y bydd ein cynlluniau i adnewyddu'r adeilad a'r busnes ond yn ychwanegu at ei broffidioldeb.

4. Beth yw cyfranddaliadau?

Mae pob cyfranddaliad cymunedol yn costio £1. Isafswm buddsoddiad yw £50, a'r buddsoddiad mwyaf yw £10,000.

Waeth faint o gyfranddaliadau a brynwyd, mae pob prynwr yn cael un bleidlais ar sut mae pethau'n cael eu rhedeg mewn cyfarfod blynyddol i gyfranddalwyr.

Mae cyfyngiadau ar faint y gallwch ei fuddsoddi i atal y gymdeithas rhag dibynnu ar lond llaw o fuddsoddwyr mawr.

Ni all eich cyfranddaliadau fyth fod yn werth mwy nag y gwnaethoch dalu amdanynt.

Bydd yr arian a godir yn cael ei ddefnyddio i brynu'r siop lyfrau a galluogi'r gymdeithas budd cymunedol i wneud cais am grantiau i adnewyddu'r adeilad.

Bydd arian a godir drwy'r cynllun cyfranddaliadau cymunedol hwn hefyd yn cael ei ddefnyddio i dalu am gostau cyfreithiol prynu'r adeilad, yn ogystal ag ailddatblygu'r siop i greu gofod digwyddiadau mwy, a stiwdios posibl i artistiaid.

Bydd pob punt a godir i brynu Bys a Bawd hefyd yn ein helpu i wneud cais am grantiau a chyllid.

Felly, os ydym yn codi £20,000, dylem allu gwneud cais am yr un swm mewn grant.

Po fwyaf y byddwn yn ei godi, y mwyaf o grantiau y gallwn wneud cais amdanynt.

Gallech weld eich cyfran gymunedol yn dyblu mewn gwerth drwy arian cyfatebol.

5. Pryd?

Rydym yn lansio'r cynllun cyfranddaliadau cymunedol ar Ddydd Gŵyl Dewi, Mawrth 1af, 2025.

Mae'r cynnig cyfranddaliadau yn cau ar 19 Ebrill, 2025. Mae'n rhedeg am gyfanswm o saith wythnos.

Unwaith rydym wedi sicrhau swm sy'n agos at y targed cynnig cyfranddaliadau lleiaf, gallwn ddechrau'r broses o drafod prynu'r adeilad, fel y gellir sicrhau ei ddyfodol fel ased cymunedol.

Os ydych am brynu cyfranddaliadau, anfonwch e-bost atom i bysabawdpawb@gmail.com neu ewch i www.bysabawdpawb.cymru

Byddwch yn helpu i sicrhau bod Llanrwst yn parhau i fod yn gymuned gref ac annibynnol.

6. Ydych chi'n bwriadu gwneud unrhyw newidiadau i'r siop?

Os byddwn yn llwyddiannus yn ein cais i brynu'r siop, bydd yn parhau i stocio amrywiaeth enfawr o lyfrau a chylchgronau Cymraeg. Mae'n hanfodol bod y diben craidd hwn yn cael ei ddiogelu.

Rydym hefyd am ddatblygu Bys a Bawd yn ganolbwynt diwylliannol a llenyddol, sydd ar agor drwy'r dydd a'r nos. Byddwn yn cynnig rhaglen o weithgareddau a digwyddiadau cymunedol sy'n cefnogi lles, creadigrwydd, cysylltiad a llythrennedd. Rydym yn bwriadu cefnogi'r rhaglen hon drwy agor caffi ac ystafell dapiau. Gallai'r ystafelloedd cefn gynnal stiwdios artistiaid, neu ofod digwyddiadau.

Rydym hefyd yn bwriadu cynnig ystod ehangach o grefftau cyfoes i'w gwerthu, gan gefnogi cynhyrchwyr ac artistiaid Cymreig lleol, yn ogystal â rhai llyfrau Saesneg am Gymru a diwylliant Cymru.

Bydd y tenantiaid sy'n byw yn y fflatiau ar hyn o bryd yn parhau â'u tenantiaeth drwy gydol y newid perchnogaeth. Mae'r incwm rhent hwn yn darparu ffrwd incwm bwysig, yn ogystal â llety lleol fforddiadwy.

Bydd ein cynlluniau'n denu mwy o gwsmeriaid ac yn cefnogi cynaliadwyedd y prosiect cyfan.

7. Mwy o gwestiynau am gyfranddaliadau

Faint alla i ei fuddsoddi?

Uchafswm y buddsoddiad yw £10,000 - isafswm yw £50.

Faint o gyfranddaliadau?

Mae'r cyfranddaliadau yn £1 yr un - a'r isafswm buddsoddiad yw £50.

Beth sy'n digwydd os ydw i eisiau tynnu fy nghyfranddaliadau yn ôl?

Gobeithiwn y byddwch eisiau dal eich cyfranddaliadau am flynyddoedd lawer a'u trosglwyddo i anwyliaid, ond ar ôl cyfnod o dair blynedd o leiaf, mae mecanwaith yn bodoli lle gall y Gymdeithas brynu eich cyfranddaliadau yn ôl, yn amodol ar ychydig o amodau syml, am eu gwerth gwreiddiol.

Mae amodau ar gyfer tynnu cyfalaf cyfranddaliadau wedi'u nodi'n llawn yn adran 'Pethau cyfreithiol' y ddogfen hon.

Beth fydd cyfradd adennill fy arian?

Pan fydd y busnes yn dechrau cynhyrchu elw yna gall y pwyllgor benderfynu talu ychydig o log ar gyfranddaliadau. Mae Cymdeithasau Budd Cymunedol eraill yn talu grantiau cymunedol bach o'u helw, ac mae hyn yn rhywbeth y bydd Bys a Bawd Pawb Cyf. yn anelu i wneud.

Rydym hefyd yn gobeithio ail-fuddsoddi yn y busnes a'r strwythur materol, gan roi gwerth ar y buddsoddiad cymunedol hwn ar gyfer y dyfodol. Mae cynllun busnes y Gymdeithas ar gael ar-lein yn www.bysabawdpawb.cymru

A oes terfyn amser ar y cynnig cyfranddaliadau cychwynnol?

Mae hon yn sefyllfa bidio cystadleuol, felly mae angen i ni godi swm digonol yn gyflym. Mae'r cynnig cyfranddaliadau yn para am saith wythnos.

Po gyflymaf y gallwn ni godi'r arian yma, y mwyaf o siawns sydd gennym ni o brynu Bys a Bawd. Felly peidiwch ag oedi cyn llenwi'r ffurflen.

Beth sy'n digwydd os nad ydych chi'n llwyddo i brynu Bys a Bawd i'r gymuned?

Bydd eich holl arian yn cael ei ddychwelyd atoch chi.

8. Ein nodau a'n gwerthoedd

Nod Bys a Bawd Pawb yw:

Prynu siop lyfrau Bys a Bawd Llanrwst a'i rhedeg fel busnes sy'n eiddo i'r gymuned a fydd yn darparu buddion cymdeithasol, economaidd a diwylliannol i bawb sy'n byw, yn gweithio ac yn ymweld â thref Llanrwst, tra'n gwarchod llenyddiaeth Gymraeg y dyfodol a'r iaith ar gyfer Dyffryn Conwy a thu hwnt.

Ein gwerthoedd yw:

- *Gwella iechyd a lles:* Byddwn yn darparu gwasanaethau sydd eu hangen ar ein cymuned, i wella ein lles a'n hymdeimlad o berthyn
- *Cryfhau'r diwylliant:* Byddwn yn hyrwyddo ac yn rhannu ein hangerdd dros y Gymraeg, ei thraddodiadau llenyddol pwerus, a'u rhannu â phawb
- *Hyrwyddo a gwella llythrennedd:* Byddwn yn darparu gwell mynediad at lyfrau a llenyddiaeth, ac yn meithrin diwylliant o greadigrwydd yn nhref Llanrwst
- *Annog cynaliadwyedd:* Byddwn yn cyfrannu tuag at economi leol a Stryd Fawr fwy ffyniannus a gwydn trwy ddiogelu swyddi lleol, tai a busnes lleol pwysig
- *Hyrwyddo cynhwysiant:* Byddwn yn dod â phobl o gefndiroedd amrywiol at ei gilydd, i adeiladu ymdeimlad o undod trwy gariad a rennir at iaith, llyfrau a dysgu
- *Annog cydweithio:* Byddwn yn dod â phobl fusnes, rhwydweithiau cymunedol, entrepreneuriaid, gwleidyddion lleol ac ymgyrchwyr ynghyd mewn un ymdrech gydweithredol a rennir drwy gyfrwng y Gymraeg
- **Byddwn yn darparu buddion cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol i gymuned Llanrwst, a thu hwnt.**

9. Pethau Cyfreithiol

Mae gennym rwymedigaeth gyfreithiol i fod yn eglur iawn wrthydd chi ynglŷn â sut mae'r broses cyfranddaliadau yn gweithio a rhwymedigaeth foesol i fod yn driw i'r ddau nod o ddiogelu Bys a Bawd ar gyfer y gymuned a diogelu eich arian.

- Mae cyfranddaliadau yn cael eu priso'n enwol am £1. Isafswm buddsoddiad yw £50 - uchafswm y buddsoddiad yw £10,000.
- Rhaid i aelodau fod yn 16 oed o leiaf, a rhaid iddynt dalu am eu cyfranddaliadau'n llawn ar adeg y cais.
- Nid yw cyfranddaliadau yn drosglwyddadwy, ac eithrio mewn achos o farwolaeth neu fethdaliad. Gall cyfranddaliadau gael eu tynnu'n ôl o'r Gymdeithas ar ôl tair blynedd o leiaf, yn amodol ar y telerau a restrir isod (gweler eitem 8).
- Ni all gwerth cyfranddaliadau enwol gynyddu. Fodd bynnag, gall y gwerth ddisgyn os yw'r rhwymedigaethau yn fwy na'r asedau, h.y. os yw'r busnes yn methu. (Rydym yn credu bod hyn yn annhebygol.)
- Ein nod yw talu llog ar gyfradd a benderfynir gan y pwyllgor, ar adeg yn y dyfodol a benderfynir gan y Pwyllgor.
- Mae eich atebolrwydd personol ym mhob amgylchiad wedi'i gyfyngu i werth eich cyfranddaliadau.
- Rydym yn bwriadu ac yn cael talu llog ar gyfranddaliadau, ar yr amod bod elw'r busnes yn caniatáu hynny.
- Ar ôl y tair blynedd o leiaf, gallwch dynnu eich cyfalaf cyfranddaliadau yn ôl o'r Gymdeithas: a) os rhoddir hysbysiad ysgrifenedig o dri mis yn ysgrifenedig b) os ydi gwargedion masnachu neu gyfalaf cyfranddaliadau ffres yn caniatáu hynny, yn ariannol c) os nad yw'r Bwrdd yn rhwystro'r cais am unrhyw reswm, fel y mae ganddynt hawl, yn gyfreithiol, i'w wneud. (A dyna fyddai'r achos, er enghraifft, os byddai rhuthr sydyn o bobl eisiau tynnu cyfalaf cyfranddaliadau yn ôl). DS Mae dyletswydd ar y bwrdd bob amser i ystyried buddiannau hirdymor y Gymdeithas a'r ased cymunedol. d) os nad yw tynnu cyfranddaliadau blynyddol yn gyfwerth â mwy na 10% o gyfanswm gwerth y cyflenwad cyfranddaliadau cychwynnol.
- Bydd yr holl arian yn cael ei gadw'n ddiogel mewn cyfrif yn enw Bys a Bawd Pawb nes bod yr aelodau sefydlu yn glir bod yr isafswm wedi'i gyrraedd i wneud y pryniant yn hyfyw. Os na fydd hyn yn digwydd, bydd eich arian yn cael ei dalu'n ôl.
- Unwaith y byddwch yn prynu'r cyfranddaliad lleiaf neu fwy, byddwch yn dod yn aelod o'r Gymdeithas a bydd gennych awdurdod i gael hawliau pleidleisio llawn mewn cyfarfodydd cyffredinol. Os bydd eich cyfranddaliad yn gostwng o dan yr isafswm, byddwch yn colli'r hawl hon. Mae gan bob aelod bleidlais gyfartal.
- Mae gan y Gymdeithas gymal diddymu perchnogaeth gyffredin ('clo asedau' sydd wedi'i gynllunio i ddiogelu Bys a Bawd ar gyfer y dyfodol) sy'n golygu, os diddymir y cwmni cydweithredol, yna unwaith y bydd cyfranddaliadau a rhwymedigaethau eraill yn cael eu talu, ni ellir dosbarthu asedau gweddilliol (y siop a'r fflatiau) ymhlith yr aelodau. Mae angen pleidlais o 75% gan aelodau i ddileu'r cymal hwn.
- Mae Bys a Bawd Pawb Cyf. wedi'i gofrestru gyda'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol. Fodd bynnag, nid yw gwerthu cyfranddaliadau cymunedol yn cael ei reoleiddio gan yr FCA. Fel llawer o fuddsoddiadau, mae cyfranddaliadau cymunedol yn risg, a gallech golli rhywfaint neu'r cyfan o'r arian rydych chi'n ei fuddsoddi. Yn wahanol i adneuon gyda banciau'r stryd fawr, nid yw cyfranddaliadau cymunedol yn dod o dan y Cynllun lawndal Gwasanaethau Ariannol, ac nid oes unrhyw hawl i gwyno i Wasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol. Os ydych yn ystyried buddsoddi swm sylweddol yna efallai y byddwch am gael cyngor ariannol annibynnol cyn gwneud hynny.
- Mae'r cynnig cyfranddaliadau hwn yn cau am hanner nos ar 19 Ebrill, 2025.
- Heb unrhyw sicrwydd na fydd y siop lyfrau yn cael ei gwerthu ar unrhyw adeg, byddwn yn gwneud ein cynnig caffael cyn gynted ag y byddwn wedi casglu isafswm buddsoddiad cyfranddaliadau – neu swm sy'n agos at y swm hwn - i wneud cynnig.

Cynnig Cyfranddaliadau Cymunedol Bys a Bawd Pawb

- Mae rheolau llawn y Gymdeithas a chopi o'n cynllun busnes i'w gweld ar-lein yn www.bysabawdpawb.cymru
- Bydd ein rhif cofrestru swyddogol yr FCA, a'r holl ddatblygiadau eraill hefyd yn cael eu postio yn www.bysabawdpawb.cymru cyn gynted ag y byddant yn ein meddiant.

